WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

# Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:** 675A2013

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Matthew Coe, David Thomas, Tracy Veale, Elaine Matthews a Gillian Gillett.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon | 9 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 13 |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i nodi cynlluniau arbed costau cylchol yn y dyfodol | 13 |
| Mae trefniadau llywodraethu cyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o graffu ar ansawdd a diogelwch, ac i ddatblygu trefniadau i gofnodi profiadau defnyddwyr a staff a dysgu ohonynt | 14 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos cynnydd yn erbyn meysydd y nodwyd yn flaenorol yn rhai y mae angen gwella arnynt, yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol eraill | 15 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 17 |
| Ffi archwilio | 18 |
| Risgiau archwilio ariannol | 19 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Canolbwyntiodd fy ngwaith archwilio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2014. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion.
7. Yn ogystal, deuthum i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ond gellid atgyfnerthu rhai meysydd;
   - mae rheolaethau ariannol lefel uchel yn gweithredu'n effeithiol ac yn creu sylfaen ddibynadwy ar gyfer paratoi datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ond gellid atgyfnerthu rhai meysydd.
8. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2012-13.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd fel rhan o waith Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd gwasanaeth penodol. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i nodi cynlluniau arbed costau cylchol yn y dyfodol

**10.** Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2012-13 ac mae wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14 gan ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn er gwaethaf y ffaith bod rhai o'r cynlluniau arbed costau a gynlluniwyd yn wreiddiol wedi cael eu disodli gan gynlluniau eraill.

**11.** Mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol blynyddol ar waith a bydd y gofyniad i lunio cynllun tair blynedd yn rhoi ysgogiad a chyfle i lunio cynlluniau gwella costau cylchol tymor hwy.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar waith i ategu dull llywodraethu da, mae'n gwella'r broses o graffu ar ansawdd a diogelwch, ac yn datblygu ei threfniadau i gofnodi a rheoli profiadau defnyddwyr a staff a dysgu ohonynt

**12.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i ategu dull llywodraethu da ac mae'n parhau i ddatblygu ei dulliau sicrwydd, gwella ei gwybodaeth reoli a diweddaru'r strategaeth risg.

**13.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod cyfeiriad clir ac mae'n datblygu trefniadau ategol i gofnodi a dysgu o wybodaeth am brofiadau defnyddwyr, digwyddiadau, cwynion a phryderon staff i ategu gwelliannau o ran ansawdd gwasanaethau a phrofiad cleifion a rhoddwyr.

**14.** Caiff trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth eu hategu gan broses gadarn o graffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau a gynhelir gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

**15.** Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol er mwyn datgelu achosion o dwyll.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos cynnydd ar lawer o feysydd i wella arnynt ynghyd â nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**16.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd ar lawer o feysydd i wella arnynt a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol er bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i gwblhau'r holl gamau gweithredu o 2012.

**17.** Darperir gwasanaethau unigryw gan yr Ymddiriedolaeth ac mae’n datblygu dulliau ysgogi i ategu’r gwell defnydd o adnoddau drwy weithgareddau meincnodi a gwella gwasanaethau yn ogystal â thrwy atgyfnerthu ei gweithlu a’i swyddogaeth datblygu sefydliadol.

**18.** Mae fy ngwaith lleol o ran adolygu dull yr Ymddiriedolaeth o ddysgu o brofiadau defnyddwyr yn dangos awydd gwirioneddol i ddysgu, a nododd fy ngwaith lleol ar radiotherapi gyfle i wella’r dull o ddarparu a datblygu gwasanaethau.

**19.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**20.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.

**21.** Cyflawnir fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**22.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, o'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**23.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**24.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwiliad o'r cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**25.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio.

**26.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio a nodwyd yn fy Amlinelliad Archwilio ar gyfer 2013 ynghyd â'r modd yr aed i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

# Adran 1: Archwiliad o'r cyfrifon

**27.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei warged neu ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**28.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**29.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**30.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
- systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**31.** Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth baratoi a monitro rhaglen gau realistig a'i galluogodd i gyflwyno ei chyfrifon drafft i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser, sef 3 Mai. Cwblhawyd yr archwiliad o'r cyfrifon drafft a chyflwynais y cyfrifon archwiliedig i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser, sef 7 Mehefin.

**32.** Yn fy marn i, roedd y wybodaeth a roddwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol ac yn ddibynadwy. Deuthum i'r casgliad bod polisïau cyfrifo ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Rwy'n cydnabod y gwelliannau a wnaed gan yr adran gyllid i'r broses o baratoi cyfrifon eleni a'r effaith gadarnhaol y mae'r rhain wedi'i chael.

33. Nodais nifer o ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol y cytunwyd arnynt yn ystod yr archwiliad. Er bod nifer y diwygiadau yn fach, mae cyfle i wella mewn rhai meysydd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth, mae trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith bellach i atgyfnerthu'r meysydd hyn wrth fynd ymlaen.

34. Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260), mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd Arweinydd Ymgysylltu'r Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 6 Mehefin 2013.

35. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2013, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

36. Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y Cronfeydd Elusennol wedi'i gwblhau a chaiff yr Adroddiad ISA260 ei gyflwyno i Bwyllgor Cronfeydd Elusennol Ionawr 2014.

### Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol ond gellid atgyfnerthu rhai meysydd

37. Adolygais reolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth yr ystyriais eu bod yn berthnasol i'r archwiliad er mwyn fy helpu i ymateb i risgiau o gamddatganiadau perthnasol. Fel rhan o'r gwaith hwn dogfennais, gwerthusais ac asesais systemau ariannol perthnasol yr Ymddiriedolaeth, ac adolygais y seilwaith TGCh lleol a gwaith yr adran Archwilio Mewnol.

38. Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol perthnasol yr Ymddiriedolaeth. Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn y seilwaith TGCh a oedd yn ategu'r systemau ariannol ychwaith, ond gellid cryfhau rhai rheolaethau.

39. Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarparwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bodloni Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru a bod rhai meysydd allweddol y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau rhagor o gysondeb. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol newydd, a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar 13 Chwefror 2013 a datblygiadau arfaethedig eraill eisoes yn mynd rhagddynt a bydd y rhain yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio Mewnol, ar sail Cymru gyfan.

**40.** Mae’r gwaith a wneuthum yn ategu barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn cyfateb i asesiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol o dan y Safonau Archwilio mewnol newydd ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'u gwasanaeth archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r gwaith y mae gwasanaethau archwilio allanol yn ymrwymo i ddibynnu arno, neu dderbyn sicrwydd ganddo, o fewn gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol.

## Mae rheolaethau ariannol lefel uchel yn gweithredu’n effeithiol ac yn creu sylfaen ddibynadwy ar gyfer paratoi datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ond gellid cryfhau rhai meysydd

**41.** Roedd fy ngwaith yn dangos bod y brif system gyfrifyddu yn creu sylfaen ddibynadwy ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol, bod rheolaethau perthnasol ar waith a’u bod yn gweithredu yn ôl y bwriad.

**42.** Rhoddodd fy asesiad o system rheoli cyllideb yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol sicrwydd bod y system reoli yn effeithiol o ran nodi gwall neu hepgoriad perthnasol posibl, ac o ran arwain at ei gywiro. Fodd bynnag, argymhellaf y canlynol:

- dylid llwytho’r gyllideb i’r cyfriflyfr yn amserol ar ddechrau’r flwyddyn ariannol;
- dylai adroddiadau monitro corfforaethol gynnwys symudiadau sylweddol o fewn cyllidebau gwariant ac incwm hyd yn oed os nad oes effaith ar y terfyn rheoli gwariant uniongyrchol (DECL);
- dylai’r adroddiadau cyllid i’r Bwrdd gynnwys y DECL cywir sy’n deillio o’r cyfriflyfr, fodd bynnag, cofnodwyd y sefyllfa ariannol gyffredinol yn gywir;
- dylid datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddiant ar gyfer deiliaid cyllideb.

**43.** Aeth yr Ymddiriedolaeth i’r afael yn brydlon â’r tri argymhelliad cyntaf yn fuan ar ôl iddynt gael eu gwneud. Mae’r rhaglen hyfforddiant yn mynd rhagddi ar hyn o bryd.

## Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2012-13 ar ôl cyflawni arbedion o £3.1 miliwn

**44.** Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli’r gyllideb yn 2012-13 er iddynt fethu â chyflawni ei tharged arbedion o drwch blewyn. Brocerwyd £400,000 yn ôl i Lywodraeth Cymru, sy’n ganlyniad cadarnhaol iawn.

**45.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth 90 y cant o’i harbedion drwy ei chynlluniau cadarn tra bod y 10 y cant a oedd yn weddill yn ymwneud â meysydd risg uchel a gwmpaswyd gan swyddi gwag yn fisol. O’r £3.1 miliwn o arbedion a gyflawnwyd o weithgareddau craidd yr Ymddiriedolaeth, roedd £2.1 miliwn yn arbedion cylchol.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**46.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd a wneir wrth gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at gyflawni cydbwysedd ariannol;
- asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gyda phwyslais arbennig ar lywodraethu ansawdd a chadernid y trefniadau ar gyfer gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau;
- cynnydd yn erbyn meysydd i'w datblygu a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol, y defnydd gwell o adnoddau, a gwaith lleol a wneir ar radiotherapi a dysgu o brofiad defnyddwyr.

**47.** Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith hwn eu crynhoi o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i nodi cynlluniau arbed costau cylchol yn y dyfodol

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14, gan ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn er gwaethaf y ffaith bod rhai o'r cynlluniau arbed costau a gynlluniwyd yn wreiddiol wedi cael eu disodli gan gynlluniau eraill

**48.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar waith i reoli cynlluniau arbed costau yn weithredol drwy fesurau unioni.

**49.** Nododd yr Is-adrannau gynlluniau arbed ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon i ategu'r broses o fantoli'r gyllideb a chafodd cynlluniau arbed costau eu categoreiddio yn dibynnu ar ba mor debygol oeddent o gael eu cyflawni. Nid yw pob cynllun yn debygol o gael ei gyflawni, gan fod rhai yn dibynnu ar ffactorau allanol, ac mae penderfyniadau rheoli wedi'u gwneud eisoes ar gynlluniau eraill er mwyn gohirio eu gweithredu tra bod cynlluniau arbed eraill yn cael eu nodi i sicrhau'r sefyllfa ragamcanol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae sefyllfa mis 7 yn ategu'r sefyllfa ragamcanol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, ar yr amod bod y cynlluniau arbedion ar gyfer gweddill y flwyddyn yn cael eu cyflawni.

### Mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol blynyddol ar waith a bydd y gofyniad i lunio cynllun tair blynedd yn darparu ysgogiad a chyfle i lunio cynlluniau gwella costau cylchol tymor hwy

**50.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses gadarn ar gyfer monitro cyllidebau yn ystod y flwyddyn, llunio cynlluniau cyllid blynyddol ac adroddiadau cyllid misol i'r Bwrdd.

**51.** Ceir cyfraniad gweithredol gan uwch staff cyllid yn y broses o osod cyllidebau Is-adrannol ac mae grwpiau cyllid yn darparu'r lefel gywir o gymorth i ddeiliaid cyllideb.

**52.** Mae cynlluniau ar waith i gyflawni'r cylch cynllunio ariannol yn gynharach, gan gynnwys nodi cynlluniau arbedion yn gynharach a bydd y gofyniad i lunio cynllun ariannol tair blynedd yn ategu hyn.

**53.** Dibynna'r Ymddiriedolaeth ar arbedion anghylchol tymor byr o hyd, ac mae'n cydnabod, er bod y sefyllfa wedi gwella dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ei bod yn bwysig cael cynllun ariannol cytbwys rheolaidd ac mae'n sicrhau bod hyn yn rhan o'i chynllun tair blynedd.

**54.** Mae'r wybodaeth ariannol a gyflwynir i'r Bwrdd yn gyson â'r hyn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

**55.** Mae effaith ariannol trosiant staff arferol a swyddi gwag dilynol yn y Ganolfan Ganser yn parhau i gyfrannu at sefyllfa ariannol gadarnhaol yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr hyn a welwyd gan fy staff wrth arsylwi yn y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn rhoi sicrwydd bod y sefyllfa yn cael ei monitro'n briodol a bod camau rheoli'n cael eu cymryd lle bo'r angen i sicrhau nad oes risg i'r broses o ddarparu gwasanaethau.

## Mae trefniadau llywodraethu cyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r broses o graffu ar ansawdd a diogelwch, ac i ddatblygu trefniadau i gofnodi profiadau defnyddwyr a staff a dysgu ohonynt

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i ategu dull llywodraethu da ac mae'n parhau i ddatblygu ei dulliau sicrwydd, gwella ei gwybodaeth reoli, a diweddaru'r strategaeth risg

**56.** Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei ddulliau sicrwydd a'i reolaethau mewnol ac mae'n hyderus, er nad yw'n hunanfodlon, fod ganddo brosesau priodol ar waith sy'n parhau i wella.

**57.** Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol gan yr Ymddiriedolaeth wrth lunio Bwrdd Stori Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPS) sy'n hawdd ei ddeall ac sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol, er y gallai gynnwys rhagor o wybodaeth ar gamau a fydd yn cael eu cymryd, pwy sy'n gyfrifol a chyfrwng gweledol syml i olrhain cynnydd.

**58.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei gallu gweithredol yn sylweddol ac wedi llunio dogfennau strategol priodol i bennu ei chyfeiriad yn y tymor byr i ganolig. Mae ffocws clir ar yr her o ariannu a datblygu campws canser newydd a darparu gwasanaeth gwaed i Gymru gyfan.

59. Gwnaethpwyd gwelliannau i brosesau asesu risg yr Ymddiriedolaeth a chreffir ar gofrestrau risg yn ystod sesiynau pwyllgor. Mae angen gwneud gwaith pellach o hyd i ddiweddaru'r strategaeth risg fel yr argymhellwyd yn ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol.

60. Ceir rheolaethau disgwyliedig ar gyfer gwneud copïau wrth gefn o wybodaeth ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre. Gellid gwella rheolaethau i sicrhau cyflawnder a chywirdeb y broses o wneud copïau wrth gefn drwy gyflwyno amserlen brofi reolaidd.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod cyfeiriad clir ac mae'n datblygu trefniadau ategol i gofnodi a dysgu o wybodaeth am brofiadau defnyddwyr, digwyddiadau, cwynion a phryderon staff i ategu gwelliannau o ran ansawdd gwasanaethau a phrofiad cleifion a rhoddwyr

61. Rhydd yr Ymddiriedolaeth flaenoriaeth uchel i ddatblygu systemau priodol i gofnodi profiad defnyddwyr, gwrando ar bryderon staff a mynd i'r afael â phryderon defnyddwyr a digwyddiadau. Penodir Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Nyrsio i ddatblygu dull gweithredu yr Ymddiriedolaeth ymhellach fel elfen o system sicrhau ansawdd gadarn.

62. Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau gweithredol sefydlog ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac mae wedi cychwyn nifer o ddulliau casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gweithdrefnau ar gyfer ymateb i gwynion a phryderon a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hatgyfnerthu hefyd.

63. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau ar waith i hyrwyddo diwylliant sefydliadol sy'n ategu dysgu a gwella a gall fanteisio ar ei fforwm llwyddiannus ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau clinigol er mwyn hybu dysgu drwy'r sefydliad cyfan.

64. Mabwysiadwyd polisi codi pryderon Cymru gyfan (chwythu'r chwiban) gan yr ymddiriedolaeth ac mae'n bwriadu cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff yn ystod 2014. Canfu ein cyfweliadau fod staff yn hyderus eu bod yn gallu codi materion yn ymwneud ag eraill a'u bod yn gwneud hynny, a bod rheolwyr yn ymateb yn briodol.

## Caiff trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth eu hategu gan broses gadarn o graffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau a gynhelir gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

65. Mae ansawdd a diogelwch yn elfen ganolog o fframwaith sicrwydd a phroses rheoli risgiau'r Bwrdd a cânt eu hategu gan wybodaeth helaeth am ansawdd a diogelwch.

66. Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n agored a cheir cyfraniad cadarn gan aelodau annibynnol, aelodau gweithredol a chynrychiolwyr staff a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn gwneud defnydd da o gyflwyniadau gan staff.

67. Dilynodd yr Ymddiriedolaeth broses gadarn i lunio Datganiad Ansawdd Blynyddol (AQS) cyntaf gonest a oedd yn canolbwyntio'n briodol ar feysydd allweddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adnewyddu a diwygio'r AQS y flwyddyn nesaf ar ôl i ganllawiau newydd gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

## Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol er mwyn datgelu achosion o dwyll

**68.** Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol ac mae'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd hynod effeithiol o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o ran helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau atal twyll a llygredd.

**69.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer presennol y Fenter ym mis Hydref 2012. Parwyd y data a chyflwynwyd y canlyniadau i'r cyrff sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2013.

**70.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter ond nid yw wedi gwneud cynnydd da ym mhob maes. Mae ymchwiliadau sy'n ymwneud â pharu data'r gyflogres yn fwy datblygedig o lawer na'r rhai sy'n ymwneud â pharu data credydwyr. Canfûm y canlynol:

- dim ond dau o'r pum adroddiad allweddol yr ymchwiliwyd iddynt;
- nid oes tystiolaeth bod ymchwiliadau wedi'u cynnal ar 10 o'r 11 adroddiad a oedd yn weddill a luniwyd gan y Fenter;
- dim ond tri o'r cyfanswm o 284 o achosion o baru a argymhellwyd iddynt.

**71.** Mae Arddangosyn 2 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r pum adroddiad allweddol a luniwyd gan ymarfer paru data'r Fenter ym mis Tachwedd 2013.

### Arddangosyn 2: Ymarfer paru data'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol – cynnydd yn erbyn adroddiadau allweddol Tachwedd 2013

| Adroddiad Allweddol | Cynnydd a wnaed ar 30 Tachwedd 2013 |
|---|---|
| 66 – Y Gyflogres | Ymchwiliwyd i 100 y cant o'r adroddiad (45 o achosion o baru yr argymhellwyd ymchwilio i ddau ohonynt) |
| 70 – Y Gyflogres | Ymchwiliwyd i 100 y cant o'r adroddiad (un achos o baru yr argymhellwyd ymchwilio iddo) |
| 80 – Y Gyflogres a chredydwyr | Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad (115 o achosion o baru yr argymhellwyd gwneud gwaith dilynol ar 37 ohonynt) |
| 707 – Credydwyr | Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad (dau achos o baru nad argymhellwyd ymchwilio i un ohonynt) |
| 708 – Credydwyr | Ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad (873 o achosion o baru yr argymhellwyd ymchwilio i 192 ohonynt) |

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi dangos cynnydd yn erbyn meysydd y nodwyd yn flaenorol yn rhai y mae angen gwella arnynt, yn ogystal â chyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol eraill

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd ar nifer o feysydd i wella arnynt a nodwyd mewn Asesiadau Strwythuredig blaenorol er bod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i gwblhau'r holl gamau gweithredu o 2012

**72.** Nawr bod yr Ymddiriedolaeth wedi ennyn arbenigedd cyfathrebu, mae'n adolygu ei strategaethau cyfathrebu mewnol a chyhoeddus yn ogystal â threfniadau i aelodau annibynnol ddefnyddio systemau cyfrifiadurol yr Ymddiriedolaeth.

**73.** Ystyrir ffyrdd o wella arweinyddiaeth a dulliau cyfathrebu ar gyfer Gwarcheidwaid Caldicott ac Arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth i ategu gwelliannau Caldicott o hyd. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IG&IM&T) wedi cytuno ar gynlluniau i adolygu'r gwaith o ddatblygu canllawiau a hyfforddiant i staff er mwyn bodloni gofynion cyfrinachedd Caldicott a disgwylir eu cwblhau erbyn mis Ionawr 2014.

**74.** Cryfhawyd y broses o reoli'r sylfaen asedau gan benodiadau newydd ac mae cynnydd yn cael ei wneud i wella'r ystad ffisegol er bod cryn dipyn o waith cynnal ôl-groniadau yn parhau o hyd sy'n effeithio ar brofiad ac urddas cleifion. Mae'r argymhelliad i gynnal yr arfarniad o'r ystad wedi'i ohirio tan fis Mai 2014 er mwyn ategu'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ystadau ar gyfer 2014-15.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu dulliau ysgogi i ategu gwell defnydd o adnoddau drwy weithgareddau meincnodi a gwella gwasanaethau yn ogystal â thrwy atgyfnerthu ei gweithlu a'i swyddogaeth datblygu sefydliadol

**75.** Mae diogelwch Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i fod yn ardderchog yn ôl barn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i weithredu ei raglen foderneiddio heriol ac uchelgeisiol ac ar yr un pryd yn rheoli heriau amrywiol i'r gwasanaeth yn cynnwys amrywiadau sylweddol nas ragwelwyd mewn galw.

**76.** Mae Canolfan Ganser Felindre wedi parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau mynediad ar gyfer radiotherapi a cemotherapi fel rhan o'r broses o ddarparu triniaethau amserol i gleifion ar hyd llwybr eu triniaeth, er bod heriau o ran cymhlethdod cynyddol y triniaethau sy'n dod ar gael.

**77.** Gwneir gwaith i ddatblygu meincnodau gyda chanolfannau canser eraill i ategu gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o waith meincnodi, er enghraifft, o ran staffio wardiau sy'n dangos bod sefyllfa Canolfan Ganser Felindre yn gadarnhaol ar y cyfan er bod yr adroddiad yn gofyn am arfer gofal wrth ddehongli.

78. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cysylltiadau cydweithredol gyda nifer o sefydliadau academaidd i gael cymorth gyda gweithgareddau ymchwil a datblygu o ran creu gallu a medrusrwydd i nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) ac mae'n awyddus i ymchwilio i gyfleoedd gydag Ysgol Fusnes Caerdydd i wella'r dysgu sy'n deillio o'r corff cynyddol o wybodaeth ym maes Gwyddoniaeth Gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd y cyfryw gyfleoedd o gymorth iddynt yn eu rhaglenni gwella lleol i wella diogelwch, ansawdd, profiad ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau.

79. Yng nghynllun tair blynedd yr Ymddiriedolaeth, nodir y bydd yn adolygu'r gweithlu clinigol, yn cynyddu nifer y rhagnodwyr anfeddygol, cynyddu gwasanaethau gofal cartref ac yn cynyddu niferoedd y staff i sicrhau gwell gwasanaethau radiotherapi. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u costio'n glir ac wedi'u pennu o fewn amgylchedd ariannol tynn a fydd yn parhau i fod yn heriol.

80. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r gweithlu a'r swyddogaethau datblygu sefydliadol ac mae'n rhoi ystod o gamau gwella ar waith.

81. Er bod yr arolwg staff yn gadarnhaol ar y cyfan, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu gweithgor arolwg staff ac mae'n mynd i'r afael â meysydd sy'n achosi pryder.

## Mae fy ngwaith lleol o ran adolygu dull yr Ymddiriedolaeth o ddysgu o brofiadau defnyddwyr yn dangos awydd gwirioneddol i ddysgu, a nododd fy ngwaith lleol ar radiotherapi gyfle i wella'r dull o ddarparu a datblygu gwasanaethau

82. Mae gan yr Ymddiriedolaeth awydd gwirioneddol i ddysgu gan ddefnyddwyr ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo i wella'r dulliau o gasglu adborth. Mae angen dull gweithredu mwy ffurfiol bellach er mwyn edrych ar ffyrdd mwy amrywiol o gasglu a chraffu ar adborth ac mae angen i hyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cydlynu canolog a pherchnogaeth leol.

83. Mae gan yr Ymddiriedolaeth le i wella ei dull o ddarparu a datblygu gwasanaethau radiotherapi drwy nodi'n gliriach gyfeiriad y gwasanaethau hyn yn y dyfodol o fewn cyd-destun y Ganolfan Ganser, atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad a chynnal dadansoddiad manwl o lwybr gofal cleifion radiotherapi.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Interim | Ebrill 2013 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2013 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Medi 2013 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o drefniadau staffio radiotherapi | Chwefror 2013 |
| Profiad defnyddwyr | Medi 2013 |
| Asesiad strwythuredig 2013: Crynodeb Lefel Uchel o Ganfyddiadau | Rhagfyr 2013 |
| Trosolwg o’r trefniadau ar gyfer gwneud copïau wrth gefn o wybodaeth | Rhagfyr 2013 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 | Ebrill 2013 |
| Protocol gwaith perfformiad y GIG | Rhagfyr 2013 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau perfformiad sy'n mynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth o hyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adfer ar ôl Trychineb TG a Pharhad Busnes (DRBC) | Chwefror 2014 |
| Codio clinigol | Chwefror 2014 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £197,568 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, £790 oedd cost y gwaith archwilio a gynhaliwyd mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r Ymddiriedolaeth gan y Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir.

Nodwyd fy ffi arfaethedig i sef £8,167 ar gyfer yr archwiliad o Gronfeydd Elusennol yr Ymddiriedolaeth mewn Amlinelliad o Waith Archwilio ar wahân ar gyfer 2013 ar gyfer Cronfeydd Elusennol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer y gwaith hwn yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

Nododd fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2013 y risgiau archwilio ariannol allweddol ar gyfer 2013. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg Archwilio Ariannol | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|
| Mae'r **amserlen** ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn gynyddol heriol eleni.<br>Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth roi trefniadau priodol ar waith i wneud y canlynol:<br>• paratoi dwy set o gyfrifon memoranda ar gyfer Cronfa Risg Cymru a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru;<br>• paratoi set gyfunol o ddatganiadau ariannol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth;<br>• sicrhau bod papurau gwaith digonol yn cael eu darparu i'w harchwilio'n amserol;<br>• sicrhau bod amrywiadau adolygu dadansoddiadol yn cael eu hesbonio'n ddigonol a'u hategu gan dystiolaeth ddogfennol briodol ar sail amserol. | Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei chyfrifon drafft i Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen ofynnol. Daeth yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2012-13 i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn rhoi darlun gwirioneddol a theg o'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2013 ac o'i chostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw. |
| Caiff y **cyfrifon blynyddol** eu crynhoi o dan y **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a Llawlyfr Cyfrifon y GIG**.<br>Dylai fod gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth lawn o'r **gofynion** hyn, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a dylai sicrhau bod risgiau a phroblemau yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â hwy yn briodol.<br>Ar 1 Mehefin 2012, trosglwyddwyd Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth roi cyfrif priodol am y trosglwyddiad yn ei chyfrifon blynyddol gan ddefnyddio dull cyfrifo amsugno a rhaid iddi baratoi nodiadau cofnodi cylchrannol gwell i'r cyfrifon. | Daeth yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2012-13 i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn rhoi darlun gwirioneddol a theg o'i sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2013 ac o'i chostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw. Darparwyd papurau gwaith digonol at ddibenion archwilio a chafodd amrywiadau adolygu dadansoddiadol eu hesbonio'n ddigonol a'u cynnal, er bod gwelliannau pellach wedi cael eu hargymell. Yn ogystal rwyf wedi nodi nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft a gywirwyd yn ystod yr archwiliad. |
| Mae dyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod **cofnodion cyfrifyddu** a **rheolaethau mewnol** cadarn ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am brosesu trafodion Cronfa Risg Cymru drwy ei chyfriflyfr ariannol. | Daeth yr archwiliad o systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau mewnol priodol ar waith i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol er bod yr achwiliad wedi nodi rhai meysydd yr oedd angen eu hatgyfnerthu. |

| Risg Archwilio Ariannol | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
| --- | --- |
| **Dyletswydd ariannol** yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau ei bod yn mantoli’r gyllideb ar gyfer y cyfnod ac ar sail barhaus. Mae’n rhaid i’r Ymddiriedolaeth sicrhau rheolaeth ariannol dda yn ystod y cyfnod er mwyn cyflawni ei thargedau ariannol ei hunan ar gyfer 2012-13. | Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth bob un o’r tri tharged ariannol ar gyfer 2012-13. |
| Mae angen **trefniadau llywodraethu ariannol cadarn** er mwyn i’r Ymddiriedolaeth sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei chyllid yn unol â’r canllawiau yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru.<br>Mae’r Ymddiriedolaeth yn cynnal dau sefydliad mawr – Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru. Bydd yn rhaid i Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth gael lefelau boddhaol o sicrwydd gan swyddogion atebol y ddau sefydliad hyn a gynhelir cyn y gellir llofnodi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Daeth fy archwiliad o’r systemau ariannol, y datganiadau ariannol a’m hadolygiad o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i’r casgliad bod trefniadau llywodraethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gweithio’n effeithiol i gyflawni amcanion, darparu gwelliannau, cynnal gonestrwydd ac osgoi gwrthdaro buddiannau. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk